# Marchnad Caerdydd

# 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AU

## Stondinau i'w Gosod 33-37





**Mae Cyngor Caerdydd yn gwahodd ceisiadau/cynlluniau busnes gan unigolion sy'n dymuno prydlesu stondin ym Marchnad Caerdydd.**


## Lleoliad

Saif y Farchnad Ganolog hanesyddol rhwng Heol Eglwys Fair a Heol y Drindod.  Mae ger siop Howells (House of Fraser) yng nghanol y ddinas.  Mae Canolfan Siopa Dewi Sant a Neuadd Dewi Sant yn agos a gellir cerdded yn hawdd i arcedau Fictoraidd enwog y ddinas megis Arcêd y Frenhines ac Arcêd y Castell.

Mae’r stondinau sydd ar gael ar hyn o bryd ar y llawr gwaelod gyda’u hunion leoliadau wedi’u dangos gyda llinell goch ar y cynllun isod er mwyn eu nodi.




Canolfan Siopa Arcêd y Frenhines
St David's Centre
Gogledd
Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr
Canolfan Siopa Dewi Sant
High Street Arcade Chambers
Marchnad Caerdydd
Heol y Drindod
The Exhibition
Yr Hen Lyfrgell
Working Street
St David's Hall
Neuadd Dewi Sant
Siop Adrannol Howells (House of Fraser)
Bar Byrbrydau'r Aes
Heol Eglwys Fair
Bank
Hodge House
Batchelor's Monument
Hills Street
Elgin House
Hotel
Club
201 to 222
301 to 319
401 to 415
David Morgan Apartments
The Hayes
Canolfan Siopa Dewi Sant 2


Canolfan Siopa Arcêd y Frenhines
Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr
Neuadd Dewi Sant
Marchnad Caerdydd
Yr Hen Lyfrgell
Howells (Siop Adrannol House of Fraser)
Yr Aes

## <u>*Argaeledd/Rhent/Tâl Gwasanaethu*</u>

| |
|---|
| ***<u>Stondin 33</u>***<br><br>***Arwynebedd Llawr = 49.94 tr. sg.***<br>***Rhent fesul tr. sg. = £21.00***<br>***Tâl Gwasanaeth fesul tr. sg. = £19.26***<br>***Rhent Blynyddol = £1,048.74***<br>***Tâl Gwasanaeth Blynyddol = £961.84***<br>***Cyfanswm Blynyddol = £2,010.58*** |
| ***<u>Stondin 33</u>***<br><br>***Arwynebedd Llawr = 48.11 tr. sg.***<br>***Rhent fesul tr. sg. = £21.00***<br>***Tâl Gwasanaeth fesul tr. sg. = £19.26***<br>***Rhent Blynyddol = £1,010.31***<br>***Tâl Gwasanaeth Blynyddol = £926.60***<br>***Cyfanswm Blynyddol = £1,936.91*** |
| ***<u>Stondin 37</u>***<br><br>***Arwynebedd Llawr = 46.07 tr. sg.***<br>***Rhent fesul tr. sg. = £21.00***<br>***Tâl Gwasanaeth fesul tr. sg. = £19.26***<br>***Rhent Blynyddol = £967.47***<br>***Tâl Gwasanaeth Blynyddol = £887.31***<br>***Cyfanswm Blynyddol = £1,854.78*** |
| ***<u>Stondinau ar y cyd</u>***<br><br>***Cyfanswm arwynebedd llawr = 144.12 sg. tr.***<br>***Rhent Blynyddol = £3,026.52***<br>***Tâl Gwasanaeth Blynyddol = £2,775.75***<br>***Cyfanswm Blynyddol £5,802.27 (taliad misol o £483.52)*** |

**Telerau Gosod Arfaethedig**

Bydd y tenant yn cydymffurfio â Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau'r Farchnad ar bob adeg. Mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo'r Farchnad fel man cychwyn i fusnesau newydd.

**1. Cyfnod**

Mae prydles safonol tan fis Ebrill 2022 (o ddyddiad i'w gytuno) ar gynnig. O dan y brydles, byddai gan y tenant y dewis o aseinio'r busnes neu ofyn i Gyngor Caerdydd nodi tenant newydd. Cyfrifoldeb y tenant presennol fyddai cadw'r stondinau hyd nes y cytunir ar ddyddiad i'r tenant newydd gymryd meddiant.

**2. Defnyddiwr:**

Ni fydd y tenant yn cyflawni unrhyw fusnes cyfanwerthu yn y stondin nac yn defnyddio'r stondin i werthu nwyddau trwy arwerthiant. Mae'r Cyngor yn ceisio annog amrywiaeth o nwyddau yn y stondinau ac felly ni ddylai eich defnydd arfaethedig fod yr un peth â stondin bresennol ond dylai gyd-fynd â'r stondinau presennol. Rhowch fanylion llawn gyda'ch cais.

**3. Rhent:**

Caiff y rhent cychwynnol ei nodi yn yr atodlen argaeledd stondinau a bydd yn daladwy'n fisol trwy ddebyd uniongyrchol. Bydd y rhent yn cael ei osod tan fis Ebrill 2022, pan fydd adolygiad rhent yn cael ei gynnal a gallai tâl rhent newydd gael ei bennu.

**4. Atgyweiriadau:**

Bydd y tenant yn gyfrifol am gadw ardal fewnol y stondin, gan gynnwys offer trydanol, gwifrau a phlymwaith, mewn cyflwr da. Dylai tenantiaid sicrhau bod yr hyn a grybwyllwyd uchod mewn cyflwr da a bod tystysgrifau ar gael i'r landlord eu gweld. Mae angen profi dyfeisiau cludadwy bob blwyddyn (Prawf Dyfeisiau Cludadwy) a rhaid rhoi'r holl dystysgrifau i'r landlord.

**5. Yswiriant:**

Bydd y tenant yn gyfrifol am yswirio cynnwys y stondin ac ni fydd yn gwneud unrhyw beth neu alluogi i unrhyw beth gael ei wneud yn y stondin a allai amharu ar yswiriant y Cyngor o'r Farchnad neu ei ddirymu.

**6. Indemniad:**

Bydd y tenant yn indemnio'r Cyngor yn erbyn pob gweithrediad, hawliad, cost, achos o ddifrod, ffioedd neu weithrediad cyfreithiol sydd o ganlyniad i ddefnydd y tenant o'r safle, a bydd yn gweithredu ac yn cynnal polisi sy'n yswirio o leiaf £5 miliwn neu unrhyw swm arall a allai gael ei fynnu o bryd i'w gilydd yn Adran Yswiriant y Cyngor, er mwyn darparu indemniad o'r fath.

**7. Tâl Gwasanaeth:**

Bydd y tenant yn talu tâl gwasanaethu i'r Cyngor ar gyfer yr holl symiau a fydd ar y Cyngor wrth weithredu, rhedeg, cynnal a chadw ac atgyweirio'r Farchnad Ganolog. Mae'r tâl gwasanaeth yn daladwy'n fisol trwy ddebyd uniongyrchol. Adolygir taliadau gwasanaeth bob blwyddyn.

**8. Treuliau:**
Bydd y tenant yn uniongyrchol atebol i ddarparwyr dewisol y tenant am yr holl gostau trydan, ffôn ac unrhyw gyfleustodau eraill sy'n gwasanaethu'r stondin. Mae'r holl ddŵr yn cael ei fesur ac mae is-fesuryddion yn cael eu gosod mewn stondinau sydd â chyflenwad dŵr. Bydd y taliadau dŵr a charthffosiaeth yn cael eu hailgodi naill ai drwy anfoneb a/neu drwy'r taliadau gwasanaeth. Os oes angen gosod dŵr arnoch, sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl.

Ers 11 Ionawr 2011, mae'r tenant yn uniongyrchol gyfrifol am ardrethi busnes a godir ar y stondin. Hefyd bydd y tenant yn gyfrifol pro-rata trwy'r tâl gwasanaeth am ardrethi a godir ar ardaloedd a chyfleusterau cyffredin yn y Farchnad.

**9. Newidiadau**
Bydd y tenant yn cymryd y stondin yn ei gyflwr presennol ac, ar ei draul ef/ei thraul hi ei hun, bydd yn gosod y cyfryw gownter, celfi a ffitiadau a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer busnes y tenant ond fel arall, ni fydd yn gwneud unrhyw newid o gwbl i'r stondin heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Mae'r stondinau ar hyn o bryd yn gragen syml heb gyflenwad dŵr na nwy.

**10. Addasrwydd:**
Nid yw'r Cyngor yn gwarantu addasrwydd y stondinau ar gyfer defnydd arfaethedig darpar denantiaid. Rhaid i ddarpar denantiaid eu bodloni eu hunain trwy archwiliad neu fel arall fod y stondinau'n addas ar gyfer y defnydd a fwriedir. Arferid defnyddio'r stondinau ar gyfer busnes offer ac maent yn gragen syml heb gyflenwad nwy na dŵr.

**11. Masnachu**
Dim ond yn ystod yr oriau a ganiateir gan oriau Caerdydd y bydd y tenant yn masnachu: Is-ddeddfau'r Farchnad o bryd o'i gilydd ac eithrio pan allai'r farchnad fod ar gau o ganlyniad i amgylchiadau na all y Cyngor eu rheoli gan gynnwys, heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr hyn a nodwyd uchod, waith atgyweirio, cynnal a chadw neu wella sylweddol a gweithredu diwydiannol. Yr Oriau Masnachu ar hyn o bryd yw o 08.00 tan 17.30 rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn yn gynwysedig.

**12. Niwsans:**
Ni fydd y tenant yn gwneud unrhyw beth nac yn caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud ar y stondin y mae'r Cyngor yn credu y bydd yn ymyrryd â'r Cyngor, tenantiaid stondinau eraill neu aelodau'r cyhoedd neu'n creu niwsans iddynt. Ni cheir defnyddio'r stondin at unrhyw ddibenion anghyfreithlon nac anfoesol.

**13. Aralliad:**
Ni fydd y tenant yn is-osod, yn codi tâl am neu'n ymwahanu â'r stondin neu'n rhannu meddiannaeth ohoni neu unrhyw ran ohoni. Ni fydd y tenant yn aseinio'r stondin heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor ac ni chaiff hyn ei wrthod yn afresymol ar yr amod y gallai'r Cyngor wrthod yn yr amgylchiadau canlynol:

a. Nid yw swm sy'n ddyledus gan y tenant wedi cael ei dalu neu,

b. ym marn resymol y Cyngor, nid yw’r aseinî’n debygol o allu cyflawni rhwymedigaethau’r tenant dan y brydles; neu
c. fyddai gan yr aseinî fuddiant mewn mwy na 1,400 sg. tr. yn y Farchnad;
d. Nid yw’r Cyngor yn cefnogi’r cymal defnyddiwr newydd;
e. Nid yw gwiriadau ariannol ar ddarpar denant newydd yn dwyn canlyniad boddhaol.

**14. Dewis Rhoi’r Gorau i’r Stondin**

Bydd gan y tenant y dewis i derfynu'r brydles os gall y Cyngor ddod o hyd i denant newydd i lenwi'r stondinau cyn i'r tenantiaid presennol adael.

**15. Arall:**

Bydd y brydles yn cynnwys telerau ac amodau eraill y gallai Cyfreithiwr y Sir, yn ôl ei ddisgresiwn, eu hystyried yn briodol ar gyfer diogelu buddiannau’r Cyngor a buddiannau ei ddinasyddion.

**16. Costau**

Bydd y tenant yn gyfrifol am ad-dalu costau cyfreithiol a syrfewyr priodol a rhesymol y Cyngor yn y trafodyn hwn (yn amodol ar leiafswm ar y cyd o £585).

**17. Cyfryngau Cymdeithasol**

Rhaid i bob tenant gael cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu busnesau unigol a Marchnad Caerdydd. Dylai tenantiaid ymrwymo i beidio â phostio sylwadau negyddol ynghylch y farchnad ar dudalennau’r cyfryngau cymdeithasol.

**Ymweld â'r eiddo**

Gellir gweld y stondinau'n allanol yn ystod oriau arferol y Farchnad

I weld y stondin bydd angen i chi gysylltu â Rheolwr y Farchnad, Louise Thomas, i wneud trefniadau addas. Rhif ffôn: 029 2087 2002 / E-bost: louise.thomas@Caerdydd.gov.uk

Swyddfa'r Farchnad (6am tan hanner dydd), Marchnad Ganolog Caerdydd, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AU
Rhif ffôn: 029 20871214

**Amserlenni**
Yn ystod y cyfnod marchnata, gall partïon â diddordeb gysylltu â'r swyddogion canlynol i gael rhagor o wybodaeth/trafodaethau anffurfiol. Dylid cyflwyno datganiadau o ddiddordeb ynghyd â ***manylion penodol*** eich defnydd arfaethedig a ***chynllun busnes manwl*** erbyn **dydd Gwener 22 Mai 2020**

Dylid dychwelyd y cyflwyniadau i:-

**Louise Thomas**
**Rheolwr Marchnata**
**Yr Adran Ystadau Strategol, CY1 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**Ffôn: 029 2087 2002**
**E-bost: louise.thomas@caerdydd.gov.uk**

Yn dilyn y dyddiad cau, **dydd Gwener 22 Mai 2020,** bydd y Cyngor yn gwerthuso'r cyflwyniad/au ac wedyn yn cysylltu â'r partïon â diddordeb gyda'r bwriad o fynd â'r mater yn ei flaen. Caiff rhestr fer o ymgeiswyr ei gwahodd i gyfweliad. Gellir cael crynodeb hefyd ar wefan Ystadau Strategol

www.cardiffcouncilproperty.com

*Ymwadiad:*
1. *Rhoddir yr wybodaeth uchod ac sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon fel amlinelliad cyffredinol yn unig o ganllawiau ar gyfer partïon â diddordeb ac ni ddylid ei hystyried yn rhan o gynnig neu gontract.*
2. *Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, cynllun, cyfeiriad at amod a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannu, a manylion eraill, heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith, ond rhaid iddynt eu bodloni eu hunain drwy archwiliad neu fel arall ynglŷn â chywirdeb pob un ohonynt.*
3. *Ni roddir awdurdod i unrhyw unigolyn a gyflogir gan Gyngor Caerdydd i wneud na rhoi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo/tir hwn.*
4. *Ceidw'r Cyngor yr hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig / cynllun busnes a gaiff.*

**Gwybodaeth Gefndirol**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **E-bost:** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Cyflogaeth Bresennol:** | |
| **Profiad Manwerthu Blaenorol:** | |
| **Manylion Banc:**<br>***Rhowch fanylion gan y gallem ofyn am eirda ariannol*** | **Enw'r Banc:**<br>**Rhif Cyfrif:**<br>**Cod Didoli:**<br>**Math y Cyfrif:** |
| **Dull Adnabod:**<br>***Nodwch pa 2 fath o ddogfen adnabod yr ydych wedi'u cyflwyno, y mae'n rhaid iddynt gynnwys eich cyfeiriad cartref.*** | **ID** Math 1:<br><br>**ID Math 2:** |
| **Enw Masnachu Arfaethedig:** | |
| **Manylion llawn y defnydd arfaethedig gan gynnwys llinellau cynnyrch:** | |

| | |
|---|---|
| **Amgaewch unrhyw wybodaeth ategol arall yr hoffech ei chynnwys:** | |
| **Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Dylai'r ceisiadau gael eu hategu gan Gynllun Busnes, gan gynnwys hanes ariannol a/neu ragamcaniad 3 blynedd.**